# Y Bwa Brenhinol
# Darganfyddwch Fwy

## PARHAU'R DAITH







PRIF SIAPTER GORUCHAF
O SEIRI BWA BRENHINOL LLOEGR

PRIF GYFRINFA UNEDIG LLOEGR

PRIF SIAPTER GORUCHAF
O SEIRI BWA BRENHINOL LLOEGR

# Un Daith
# Un Gyfundrefn



# O'r Derbyn i'r Dyrchafiad



Dylai pob Saer Rhydd Cyflawn fod a dyhead tuag at barhau'r daith o Dderbyniad yn y Grefft hyd at Ddyrchafiad fel Cymar yn y Bwa Brenhinol.

Pan ddaeth y Brif Gyfrinfa Hynafol a Modern at ei gilydd i greu Prif Gyfrinfa unedig Lloegr yn 1813 gwnaed y datganiad fod 'Saeryddiaeth Bur Hynafol yn cynnwys tair gradd – Y Prentis Derbyniedig, y Cyd Grefft a'r Saer Cyflawn *yn cynnwys y Bwa Brenhinol.*

Mae'r datganiad hwn yn dal i sefyll ym mlaen ein Llyfr Cyfansoddiadau sy'n golygu fod yna bedair rhan i daith Saer Rhydd. Am resymau hanesyddol, mae'r tair gyntaf dan reolaeth PGULl, tra bo'r Bwa Brenhinol yn cael ei reoli gan Brif Siapter Goruchaf Lloegr- ond mewn gwirionedd un gyfundrefn ydym.

Oherwydd y cysylltiad, mae ein Prif Feistr o anghenraid yn gweithredu fel Prif Ben Swyddog Cyntaf yn y Bwa Brenhinol, ac mae llawer o'r prif swyddogaethau eraill yn cael eu rhannu.

Mae'r cyswllt hwn yn gwneud Saeryddiaeth Rydd Lloegr yn unigryw o amgylch y byd ac yn cynrychioli rhan bwysig o'n hanes a'n hetifeddiaeth.

# Darganfyddwch Fwy

Os mai newydd eich Codi ydych neu wedi bod yn Saer Rhydd Cyflawn ers peth amser, mae'n siwr fod gennych rai cwestiynau megis *beth nesaf? Sut allaf ddarganfod y cyfrinachau a gollwyd?,* neu hyd yn oed efallai, *beth mae hyn oll yn ei olygu?*

Efallai eich bod hefyd yn dyfalu sut i fwynhau mwy o'r hyn sydd gan Saeryddiaeth Rydd i'w gynnig a sut i ehangu eich cylch cymdeithasu tu hwnt i'r hyn sydd o fewn eich Cyfrinfa Grefft.

Mae'r Bwa Brenhinol yn darparu atebion i'r cwestiynau hyn a dyma ble y darganfyddwch fwy.



*Llun gan Kenji Kudo*

*"Pan ymunais â'r Bwa Brenhinol, ni wneuthum oherwydd bod rhywun wedi dweud y dylwn – yr oedd oherwydd fy mod yn mwynhau'n enfawr fy Saeryddiaeth. Yr oeddwn yn awyddus i ddarganfod mwy ac i ymestyn fy ngwybodaeth am Saeryddiaeth Rydd yn gyffredinol."*

RICHARD
SIAPTER GRANITE RHIF 2028,
SWYDD GAERLŶR & RUTLAND

# Parhau'r Daith



*"Yr hyn 'rwy'n ei garu fwyaf am y Bwa Brenhinol nid yn unig am brydferthwch y Ddefod, ond ei ddyfnder. Teimlaf bob tro y byddaf yn cyflawni rhan wahanol ohono, mae'n datgloi rhywbeth newydd ac ystyrlon. 'Rwy'n gwybod am flynyddoedd i ddod byddaf yn parhau i ddarganfod dyfnder newydd i'r defodau."*

GUR
SIAPTER BARNATO
RHIF 2265, LLUNDAIN

Pan ddewch yn Saer Rhydd Prentis Derbyniedig, rhoddir chi yng nghornel Gogledd-Ddwyreiniol y Gyfrinfa i gynrychioli  carreg sylfaen adeilad newydd, ac *fe'ch anogir i godi strwythur ysblenydd perffaith ym mhob rhan a'n anrhydeddus i'r adeiladwr.*

Mae eich Derbyniad yn ddechreuad i daith drwy'ch bywyd pryd y darganfyddwch mwy am bwy yw'r adeiladwr hwnnw.


Mae'r graddau y bu i chi fynd drwyddynt ar y daith hon yn cynnwys gwersi alegoriaidd sy'n gymorth i chi fyw gwell bywyd mewn cytgord ag eraill, a bod yn esiampl er lles cymdeithas. Er bod y byd wedi newid llawer ers y Ddeunawfed Ganrif pan fu i'r alagoriau hyn ddod i fodolaeth, mae'r egwyddorion yn parhau i fod cyn bwysiced nawr nac erioed.

# Dilyn yr Arwyddion

Erbyn i chi ddod yn Saer Rhydd Cyflawn, byddwch wedi dysgu llawer ar eich taith saeryddol ac wedi gwneud llawer o gynnydd. Ond 'rydych wedi dysgu hefyd nad yw'r daith ar ben gan fod gwir gyfrinachau Saer Rhydd Cyflawn yn dal ar goll-mae hyn yn awgrymu fod mwy i'w ddysgu.

Yn y Bwa Brenhinol, 'rydych yn cwblhau'r daith hon ac yn adfer gwir gyfrinachau Saer Rhydd Cyflawn trwy ddefod, ysblenydd, lliwgar a dramatig a gofiwch am byth.

Ond nid yw'r 'gwir gyfrinachau' a ddarganfyddwch yn y Bwa Brenhinol yr hyn y gallech feddwl eu bod maent hyd yn oed yn well.



*"Fe ymunais a'r Bwa Brenhinol er mwyn cwblhau'r stori a ddechreuodd yn y Grefft. parheais ar gyfer y seremoni hynod gyfoethog, llawn awyrgylch."*

PHIL
SIAPTER THAMES MARINER
RHIF 8628
SWYDD BUCKINGHAM

# Mwynhau Cyfeillgarwch

Byddwch hefyd yn dysgu'r gwersi pwysig o gyfeillgarwch a chydweithio – fel y bu i'r tri Phrif Feistri weithio gyda'i gilydd i adeiladu Teml Y Brenin Solomon, mae pob dim yn y Bwa Brenhinol yn cael ei wneud fel rhan o dîm.



Mae hyn yn pwysleisio'r cyfeillgarwch a'r gwmniaeth bellach sydd ar gael o fewn yr Urdd, a'r gwerth pwysig o gydweithio mewn cytgord ag eraill.



*"Ni allaf ddweud wrth Frawd pa bryd y bydd yn barod ar gyfer y Bwa Brenhinol, ond gallaf ddweud wrtho fod yn werth pob munud y mae'n treulio yn trafod â'r rhai sydd eisoes wedi ymuno. Edrychaf ymlaen at fwynhau llawer mwy o flynyddoedd ar y daith hon gyda'r cymheiriaid newydd ardderchog fydd yn ei rhannu â mi."*

SCOTT
SIAPTER HAMPDEN RHIF 6483
SWYDD BUCKINGHAM

Yn ychwanegol, mae'r hyn a ddysgwch fel Saer Bwa Brenhinol yn eich cymell i weithredu fel esiampl i gefnogi ac annog eraill.

# Darganfod Atebion

Os ydych wedi mwynhau'r tair Gradd Y Grefft, yna byddwch yn falch o ddeall fod yna lawer mwy ar ôl i'w ddarganfod yn y Bwa Brenhinol. Ni fethwch a chael eich llonni gan yr ysblander a'r ddrama o fewn y Ddefod o Ddyrchafu pan ymunwch- ac fe ddysgwch mwy am y stori tu ôl i ail adeiladu teml Y Brenin Solomon.

Byddwch hefyd yn cael amser ardderchog a phleserus yn ystod eich taith- ac yn gwneud llawer o ffrindiau a chymheiriaid newydd wrth wneud hyn.



Tra bo'r daith yn mynd rhagddi byddwch yn dechrau deall Saeryddiaeth mewn ffordd gwbl wahanol- bydd eich dealltwriaeth o natur a dyletswydd 'yr adeiladwr' a gyfeiriwyd ato yn ystod eich Derbyn yn cael ei egluro, a byddwch yn dechrau deall sut i adeiladu'r strwythur ysblennydd sy'n 'berffaith ym mhob rhan.'

*"Roedd y Ddefod yn hollol wych- ni allwn fod wedi gofyn mwy o'r rhai a gymrodd ran- 'roedd yn brofiad ysblenydd- cariasom hyn."*

ADAM & ARNOLD

YN SIARAD GYDA'I GILYDD MEWN PODCAST DIWEDDAR AM GAEL EU DYRCHAFU GYDA'U GILYDD YN SIAPTYR ROYAL CHESHIRE RHIF 89, SWYDD CAER.

# Saeryddiaeth Rydd yn yr Unfed Ganrif ar Hugain

Mae'r daith drwy Saeryddiaeth Bur Hynafol a'r darganfyddiadau mae pob person yn ei wneud yn y Bwa Brenhinol yn bersonol iawn. Ond fe ddarganfyddwch hyd yn oed heddiw, fod yr alegoriau hyn yn parhau i gynrychioli gwersi amhrisiadwy y gallwn oll ddysgu ohonynt- a mwynhau yn y broses.

Trwy gymhwyso'r hyn a ddysgwn ar y daith hon, gallwn yn wir ddod *yn anrhydeddus i'r adeiladwr* mewn ffordd fyddai yn dal i fod yn adnabyddus i'r rhai a ddatblygodd y negeseuon hyn gyntaf cannoedd o flynyddoedd yn ôl.

*Anelwch at ddarganfod mwy am Saeryddiaeth Rydd, a mwy amdanoch eich hun, trwy barhau â'ch taith o'ch Derbyn i'ch Dyrchafiad yn y Bwa Brenhinol.*



# Y Bennod Nesaf

## Beth fydda i yn ei ddarganfod?

| | |
|---|---|
| Atebion | Dilynwch y cliwiau o'r Drydedd Radd er mwyn cwblhau eich taith mewn Saeryddiaeth Bur Hynafol |
| Cyfeillgarwch | Gweithiwch gyda hen ffrindiau a chymheiriaid i adeiladu ar egwyddorion y Grefft |
| Ysblenydd | Dysgwch fwy am ein hanes mewn defod ysblenydd a gofiwch am byth |
| Hunan | Dadorchuddiwch olwg newydd a fydd yn eich cefnogi mewn taith bersonol o ddarganfod |

# Pa bryd alla i ymuno â'r Bwa Brenhinol?

Rydych yn gymwys i ymuno â'r Bwa Brenhinol bedair wythnos ar ôl eich gwneud yn Saer Rhydd Cyflawn.

Dywedwyd yn y gorffennol y dylech aros nes eich bod wedi mynd trwy Gadair eich Cyfrinfa cyn ymuno- ond mae'r chwedl hon yn seiliedig ar hen syniadau, ac ar hen reolau nad ydynt yn berthnasol mwyach.



Yr ateb symlaf yw y dylech ddod o hyd i Siapter mwyaf addas ac ymuno ar yr adeg fwyaf cyfleus i chi.

Fel yn y Grefft, mae yna lawer o wahanol Siapteri, bob un gyda'i hanes a thraddodiadau ei hun, yn ogystal â Siapteri â diddordebau arbennig.

Felly gofynnwch i Gynrychiolydd  Bwa Brenhinol eich Cyfrinfa am gyngor, neu cysylltwch â'ch Swyddfa Fetropolitan, Daleithiol neu Ardal berthnasol. Neu siaradwch ag unrhyw un sy'n gwisgo Tlws Y Bwa Brenhinol- byddant yn falch o'ch cynorthwyo i gwblhau eich taith.

PRIF SIAPTER GORUCHAF
O SEIRI BWA BRENHINOL LLOEGR

www.ugle.org.uk/royal-arch